

<b>Adroddiad i'r</b>	<b>Cabinet</b>
<b>Dyddiad y cyfarfod</b>	<b>14 Rhagfyr 2021</b>
<b>Aelod / Swyddog Arweiniol</b>	<b>Cynghorydd Mark Young</b> <b>Aelod Arweiniol Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd,</b> <b>Cymunedau Diogelach a Cham-drin Domestig</b>
<b>Awduron yr Adroddiad</b>	<b>Angela Loftus (Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai) a</b> <b>Kim Waller (Rheolwr Prosiect Arweiniol)</b>
<b>Teitl</b>	<b>Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr 2021</b>

## **1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

1.1. Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal a chyflwyno asesiad o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr i Lywodraeth Cymru bob 5 mlynedd. Mae'n awr yn ofynnol i'r Cyngor ymgymryd a chyflwyno asesiad newydd, gan y cymeradwywyd yr asesiad presennol yn 2017. Mae'r adroddiad yn amlinellu'r ymagwedd a gymerwyd a chanfyddiadau ac argymhellion Asesiad drafft o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr.

## **2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

2.1. Pwrpas yr adroddiad yw cyflwyno Asesiad drafft o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr ar gyfer Sir Ddinbych a cheisio cymeradwyaeth y Cabinet i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr i Lywodraeth Cymru yw 24 Chwefror 2022. Mae Asesiad drafft Llety Sipsiwn a Theithwyr Sir Ddinbych 2021 (GTAA) ynghlwm fel Atodiad 1 (Atodiad D i Atodiad 1 wedi'i eithrio rhag ei gyhoeddi drwy rinwedd paragraffau 12 a 13 Rhan 4 o Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol, 1972).

### **3. Beth yw'r Argymhellion?**

- 3.1. Bod y Cabinet yn cadarnhau ei gefnogaeth bod y dull o fynd ati i gyflawni Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Sir Ddinbych yn un cadarn ac un oedd yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.
- 3.2. Bod y Cabinet yn cymeradwyo Asesiad drafft o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr 2021 i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru.
- 3.3. Dirprwyo awdurdod i Aelod Arweiniol Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd, Cymunedau Diogelach a Cham-drin Domestig i gytuno ar unrhyw fân newidiadau golygyddol sydd eu hangen ar gyfer yr Asesiad drafft Llety Sipsiwn a Theithwyr, cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.
- 3.4. Bod y Cabinet yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad Effaith ar Les (Atodiad 3) fel rhan o'i ystyriaethau.

### **4. Manylion yr adroddiad**

#### **Cefndir**

- 4.1. Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn cyflwyno dyletswydd gyfreithiol ar Awdurdodau Lleol i asesu anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr (Adran 101) a diwallu'r anghenion hynny (Adran 103). Yn unol â'r gofyniad hwn mae'n awr yn ofynnol bod y Cyngor yn ymgymryd ac yn cyflwyno Asesiad newydd i Lywodraeth Cymru. Mae Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr wedi'i ddiweddarau hefyd yn ofynnol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol newydd.
- 4.2. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau statudol manwl '*Ymgymryd ag Asesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr*'.<sup>1</sup> Bydd Llywodraeth Cymru'n asesu'r GTAA yn erbyn y fethodoleg hon. Mae'n ofynnol bod y GTAA yn nodi anghenion llety preswyl parhaol a symudol yn Sir Ddinbych. Nid yw'n ofynnol nodi lleoliadau ar gyfer safleoedd.

---

<sup>1</sup> <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-03/undertaking-gypsy-and-traveller-accommodation-assessments.pdf>

- 4.3. Comisiynwyd Consultants Opinion Research Services (ORS) ar y cyd gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i ymgymryd â GTAA newydd ar ran y ddau Gyngor. Mae asesiadau ac adroddiadau ar wahân wedi'u cynhyrchu ar gyfer y ddau awdurdod. Mabwysiadwyd dull rheoli prosiect cadarn drwy sefydlu Bwrdd Prosiect dan arweiniad Aelodau, gyda'r Arweinydd a'r Aelod Arweiniol yn gweithio gydag Uwch Swyddogion i gyfeirio'r gwaith hwn gan sicrhau bod Aelodau'n cyfrannu, bod yn agored ac yn dryloyw.
- 4.4. Roedd Aelodau Etholedig a'r Pwyllgor Craffu wedi mynegi pryderon yn flaenorol o ran lefel yr ymgynghori gyda chymunedau Sipsiwn a Theithwyr a'r angen ar gyfer ymgysylltu'n gynnar gydag Aelodau. Cytunodd Pwyllgor Craffu Cymunedau yn eu cyfarfod ar 13 Mai 2021 y dylid sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen i ddarparu cefnogaeth i ddatblygu'r GTAA newydd. (Mae'r Cylch Gorchwyl ynghlwm yn Atodiad 2).
- 4.5. Pwrpas y Grŵp yw sicrhau bod y dull a ddefnyddir i ddarparu'r GTAA newydd yn cydymffurfio â methodoleg Llywodraeth Cymru a bod adborth blaenorol yn cael ei ystyried yn unol â gofynion Craffu.
- 4.6. Yn ei gyfarfod ar 26 Gorffennaf 2021, cefnogodd Pwyllgor Craffu Cymunedau y Briff Gwaith a'r Cynllun Ymgysylltu a Chyfathrebu gyda Budd-ddeiliaid (gellir gweld y rhain fel [Atodiad 2 a 4 i eitem fusnes 4](#) ar raglen y cyfarfod hwnnw) wedi'i ddatblygu gan y Grŵp Tasg a Gorffen i gefnogi darpariaeth y GTAA yn unol â methodoleg Llywodraeth Cymru. Cadarnhaodd y Pwyllgor Craffu ei fod yn cefnogi bod y dull a fabwysiadwyd yn un cadarn ac yn unol â methodoleg Llywodraeth Cymru a chefnogi lansiad y GTAA. Gwnaed gwaith ar yr Asesiad rhwng Awst a Hydref 2021. Mae'r Grŵp Tasg a Gorffen wedi adolygu'r canfyddiadau ac argymhellion y GTAA ac yn fodlon bod yr Asesiad wedi'i gyflawni yn unol â methodoleg LIC ac wedi dilyn y Briff Gwaith a Chynllun Ymgysylltu a Chyfathrebu gyda Budd-ddeiliaid a gytunwyd. Trafodwyd yr adroddiad 'a'r casgliadau terfynol gan y Grŵp Tasg a Gorffen ym Mhwyllgor Craffu Cymunedau ar 9 Rhagfyr 2021.
- 4.7. Mae ystod eang o ddulliau wedi'u defnyddio i godi ymwybyddiaeth o'r GTAA ac i ymgysylltu gyda chymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr (GRT) yn unol â'r Cynllun Ymgysylltu a Chyfathrebu gyda Budd-ddeiliaid. Roedd y gwaith cychwynnol yn cynnwys casglu data o nifer o ffynonellau gan gynnwys Cyfrifiad 2011, data gwersylloedd diawdurdod, cofnodion cynllunio, y gofrestr tai (SARTH), cofrestr tai fforddiadwy (Tai Teg) a chysylltu gyda Theithwyr, Addysg a Landlordiaid Cymdeithasol

Cofrestredig. Cyhoeddwyd yr astudiaeth i sicrhau bod cymuned y Teithwyr yn ymwybodol o'r astudiaeth ac yn cael eu hannog i gyfranogi. Hyrwyddwyd y gwaith drwy ddatganiad i'r wasg, cyfryngau cymdeithasol, posteri yn y gymuned, drwy wasanaethau rheng flaen gan gynnwys y Bwrdd Iechyd a Heddlu Gogledd Cymru, ac arolygon i Aelodau Etholedig a Chynghorau Dinas, Tref a Chymuned. Rhannwyd gwybodaeth gyda sefydliad eirioli GRT - Travelling Ahead a drwy Swyddog Cyswllt GRT.

4.8. Gwnaed y gwaith maes a chasglu data ar gyfer yr arolwg gan Opinion Research Services (ORS). Cafwyd cyfweiliadau gydag aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr a nodwyd i asesu eu hanghenion gan ddefnyddio holiadur yr arolwg a ddarparwyd ym methodoleg LIC. Cwblhawyd cyfanswm o 10 cyfweiliad gydag aelwydydd oedd yn byw ar safleoedd heb awdurdod ac mewn brics a mortar yn y Sir. Mae'r wybodaeth a gasglwyd yn y cyfweiliadau yn ffurfio sylfaen yr asesiad o anghenion. Mae gwaith ar yr asesiad wedi'i gwblhau yn awr ac mae'r GTAA drafft ynghlwm yn Atodiad 1.

4.9. Mae GTAA drafft Sir Ddinbych (Atodiad 1) yn dod i'r casgliad bod:

- Angen 8 llain breswyl i ddiwallu'r anghenion a nodwyd ar gyfer 3 aelwyd / grwpiau teuluol estynedig yn y Sir.
- Nid oes tystiolaeth bod angen safle tramwy parhaol, oherwydd y niferoedd isel o wersylloedd heb awdurdod, natur byr dymor y gwerysilloedd hyn a'r ffaith nad oedd y cyfweiliadau gyda'r Sipsiwn a'r Teithwyr wedi nodi bod angen darpariaeth tramwy parhaol yn lleol. Argymhellir bod y dull yn seiliedig ar reoli a ddefnyddir ar gyfer gwerysilloedd heb awdurdod ar hyn o bryd yn cael ei ddatblygu ymhellach yn seiliedig ar arferion gorau ar draws y DU, a allai gynnwys 'aros wedi'i drafod'.
- Rhagwelir y bydd twf aelwydydd yn 4 aelwyd ychwanegol o 2026-2033.

4.10. Pe bai'r Cabinet yn ei gymeradwyo, y cam nesaf yw cyflwyno'r GTAA drafft i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo.

## **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Bydd cwblhau'r GTAA yn cyfrannu at y blaenoriaeth Gorfforaethol: *Tai* drwy nodi anghenion llety'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr.

## **6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae'r ymgynghorwyr wedi'u caffael ar y cyd gyda CBSC i ymgymryd â'r GTAA. Bydd ymrwymiad CSDd o £5.5mil yn dod o gyllideb y CDLI.

## **7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?**

Mae Asesiad o'r Effaith ar Les wedi'i gyflawni ar gyfer y prosiect ac mae ynghlwm yn Atodiad 3. Mae'n dod i'r casgliad bod yr effaith gyffredinol yn gadarnhaol.

## **8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?**

Mae'r Grŵp Tasg a Gorffen a sefydlwyd gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau wedi cwrdd chwe gwaith ac wedi hysbysu datblygiad Cynllun Ymgysylltu a Chyfathrebu gyda Budd-ddeiliaid a'r Briff Gwaith. Cefnogodd y Pwyllgor Craffu y Briff Gwaith a'r Cynllun Ymgysylltu a Chyfathrebu gyda Budd-ddeiliaid a chadarnhau ei gefnogaeth tuag at y dull a fabwysiadwyd yn y cyfarfod ar 26 Gorffennaf 2021. Ystyriwyd adroddiad terfynol gan y Grŵp Tasg a Gorffen a'r GTAA drafft yn y Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 9 Rhagfyr 2021. Oherwydd y terfynau amser bydd diweddariad ar lafar o'r cyfarfod yn cael ei roi i'r Cabinet. Roedd Cynllun Ymgysylltu a Chyfathrebu gyda Budd-ddeiliaid yn cynnwys gweithgareddau i geisio safbwyntiau gan gymuned y Teithwyr gyda chefnogaeth gan swydd newydd Swyddog Cyswllt Sipsiwn, Roma, Teithwyr. Mae gwaith wedi'i gyflawni gyda'r sefydliad eirioli Travelling Ahead.

## **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Fel y nodwyd yn Adran 6 nid oes costau uniongyrchol yn gysylltiedig â gwaith y Grŵp Tasg a Gorffen ac fe groesawir bod costau cychwynnol yr ymgynghorwyr wedi'u cynnwys o fewn y cyllidebau presennol.

## **10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae nifer o risgiau wedi'u nodi o fewn y prosiect ac wedi'u cynnwys yn asesiad risg achos busnes y prosiect llawn. Mae diffyg cefnogaeth wleidyddol wedi'i nodi fel risg sylweddol sydd wedi arwain at ymgysylltiad gan yr Arweinydd a'r Aelod Arweiniol yn y prosiect o'r cychwyn. Mae sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen a chyflwyno adroddiadau i'r Pwyllgor Craffu wedi ceisio sicrhau mwy o gyfraniad gan Aelodau yn y prosiect.

## **11. Pŵer i wneud y penderfyniad**

Adran 101 - Deddf Tai (Cymru) 2014